# Cyflwyniad

1.1 Mae'r pamffled hwn yn rhoi crynodeb o strategaeth newydd y Llywodraeth i ymdrin â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Cyhoeddir y strategaeth i gyd-fynd â lansio'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) ac mae'n gynnyrch ymgynghori eang gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, yr asiantaethau cudd-wybodaeth, awdurdodau lleol, y sector preifat a'r byd academaidd. Mae'n trafod newidiadau yn y bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu a'r gwersi yr ydym wedi eu dysgu o'n gwaith yn y gorffennol.

1.2 Mae'r strategaeth lawn ar gael yn www.gov.uk/government/publications/serious-organised-crime-strategy a gellir cael copïau caled trwy'r Swyddfa Gartref.[1]

1.3 Mae troseddau cyfundrefnol yn cynnwys masnachu cyffuriau, masnachu pobl, a mewnfudo anghyfreithlon cyfundrefnol, twyll o werth mawr a throseddau ariannol eraill, ffugio, troseddau caffael cyfundrefnol a throseddau seiber. Mae'r strategaeth hefyd yn ymdrin â throseddau difrifol sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol cydlyn, yn benodol ar gyfer twyll a cham-fanteisio rhywiol ar blant.

1.4 Mae troseddau cyfundrefnol yn fygythiad i'n diogelwch cenedlaethol. Mae'n costio o leiaf £24 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig, yn arwain at golli bywydau a gall amddifadu pobl o'u diogelwch a'u ffyniant. Gall grwpiau troseddol godi ofn a llygru a gallant gael effaith niweidiol ar ein cymunedau. Mae troseddau seiber yn tanseilio hyder yn ein technoleg gyfathrebu a'r economi ar-lein. Mae troseddau mewnfudo cyfundrefnol yn bygwth diogelwch ein ffiniau. Rydym yn ystyried masnachu mewn pobl fel ffurf ddinistriol ar gaethwasiaeth fodern. Gall troseddau ariannol danseilio uniondeb a sefydlogrwydd ein marchnadoedd a'n sefydliadau ariannol.

---

1 OCStrategy@homeoffice.gsi.gov.uk

# Ein dull

1.7 Mae ein strategaeth troseddau difrifol a chyfundrefnol yn defnyddio'r fframwaith yr ydym wedi ei ddatblygu i'n gwaith gwrthderfysgaeth ac mae pedwar prif amcan iddo:

- **ERLID:** erlyn ac amharu ar bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau troseddol difrifol a chyfundrefnol;
- **ATAL:** atal pobl rhag ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol;
- **DIOGELU:** cynyddu'r diogelwch rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- **PARATOI:** lleihau effaith y troseddau hyn pan fyddant yn digwydd.

1.8 Mae'r strategaeth yn rhestru ein hamcanion strategol dan bob un o'r pedwar maes gwaith. Bydd angen i ni gyrraedd yr amcanion yma i gyflawni ein nod. Mae'r strategaeth hefyd yn dynodi nifer o'r prosiectau a rhaglenni sy'n berthnasol i bob amcan. Bydd rhagor o fanylion am y prosiectau a'r rhaglenni hefyd ar gael o'r adrannau cyfrifol neu gan dîm cydlynu'r Swyddfa Gartref yn y Swyddfa dros Ddiogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT)[2].

1.9 Ein blaenoriaeth gyntaf yw'r gwaith a nodir dan Erlid i erlyn ac amharu yn ddiflino ar droseddwyr difrifol a chyfundrefnol a lleihau'r bygythiad y maent yn ei greu.

1.10 Yn yr un modd â bygythiadau eraill i'n diogelwch cenedlaethol, mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn gofyn am ymateb ar draws y llywodraeth gyfan, cydweithio clos gyda'r cyhoedd a'r sector preifat a gyda nifer o wledydd eraill.

1.11 Mae'r diagram ar y tudalennau nesaf yn darlunio pedair rhan y strategaeth, yr amcanion strategol ar gyfer pob un ac mae'n cynnig disgrifiad byr o rai o'r rhaglenni cysylltiedig. Bydd yr amcanion tactegol (e.e. grwpiau troseddwyr sy'n cael blaenoriaeth) yn cael eu gosod gan yr NCA gyda'u cymheiriaid sy'n gorfodi'r gyfraith.

2 OCStrategy@homeoffice.gsi.gov.uk

1.12 Rhoddir rhestr lawn o'r adrannau a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ymdrin â throseddau cyfundrefnol yn Atodiad A.

## ERLID

1.13 Rydym yn llunio sefydliadau gyda rolau a chyfrifoldebau newydd i ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd ganddynt alluoedd newydd. Rydym yn awyddus i weld mwy o gydweithio trawslywodraethol ar bob lefel. Rydym hefyd yn gwneud newidiadau i'n deddfwriaeth i wneud ein pwerau yn fwy effeithiol. Rydym yn ail siapio ein gwaith rhyngwladol i adlewyrchu'r newidiadau yn y bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu.

1.14 Bydd yr NCA yn dechrau ar ei gwaith yn ffurfiol yn Hydref 2013. Bydd yn datblygu a dwyn at ei gilydd gudd-wybodaeth ar bob math o droseddau cyfundrefnol a difrifol, yn blaenoriaethu grwpiau o droseddau yn ôl y bygythiadau y maent yn eu creu ac, ar y cyd gyda'r lluoedd heddlu, yn arwain, cydlynu a chefnogi ein hymateb gweithredol.

1.15 Bydd lluoedd heddlu yn parhau i gynnal y rhan fwyaf o waith gorfodi'r gyfraith ar droseddau difrifol a chyfundrefnol. Dylent gael eu cefnogi gan fyrddau partneriaeth troseddau cyfundrefnol lleol newydd, gan gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau, i sicrhau bod yr holl wybodaeth a phwerau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn erbyn y bygythiad hwn. Bydd y partneriaethau lleol hyn yn cael gwybodaeth trwy broffiliau troseddau cyfundrefnol a difrifol lleol newydd. Bydd y comisiynwyr heddlu a throseddu yn ymwneud â'r gwaith hwn.

1.16 Byddwn yn parhau i lunio Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU) yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr unedau hyn angen cefnogaeth trwy well rhannu gwybodaeth rhwng adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau. Byddwn yn ehangu Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth (GAIN) i'r diben hwn.

1.17 Mae datblygiadau mewn troseddau cyfundrefnol, yn benodol amlygrwydd newydd troseddau seiber, yn golygu bod angen i ni barhau i wella'r NCA a gallu'r heddlu. Sicrhawyd bod cyllid ar gael i'r diben hwn, yng Nghymru a Lloegr. Rydym am weld llawer mwy o allu i rannu rhwng rhwydweithiau'r heddlu sy'n ymdrin â throseddau cyfundrefnol a therfysgaeth.



1.18 Byddwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i geisio creu pwerau newydd i atafaelu asedau troseddol. Byddwn hefyd yn cymryd camau i ymdrin yn well â phobl sy'n cefnogi troseddau difrifol a chyfundrefnol yn weithredol ac yn manteisio arnynt. Byddwn yn deddfu i ymdrin â her caethwasiaeth fodern.

1.19 Byddwn yn ailstrwythuro ein rhwydwaith ymladd troseddau dramor i ymdrin â phob math o drosedd sydd yn awr yn dod dan oruchwyliaeth yr NCA, gan gynnwys camfanteisio yn rhywiol ar blant a throseddau seiber. Byddwn yn cynyddu ein hymdrech i amharu ar swm sylweddol o droseddau cyfundrefnol sy'n cael eu cyflawni gan ddinasyddion tramor yn y wlad hon. Byddwn yn parhau i gynyddu gallu gwledydd eraill lle mae troseddau cyfundrefnol wedi cael effaith uniongyrchol ar ein diogelwch ni ein hunain.

1.20 Bydd llwyddiant Erlid yn golygu:

- gartref, bod amharu diflino ar droseddau difrifol a chyfundrefnol ac erlyn y rhai sy'n gyfrifol yn lleihau'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu;
- dramor, gwell cydweithio rhyngwladol yn tynnu ar adnoddau ehangach yn fwy effeithiol yn amharu ar droseddau cyfundrefnol byd-eang.

# ATAL

1.21 Byddwn yn creu rhaglen i atal pobl rhag dechrau neu barhau i ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma yw Atal. Rhaid iddo gael ei gydlynu a thynnu ar wersi a ddysgwyd o'n gwaith Atal ar wrthderfysgaeth.

1.22 Byddwn yn noddi a chreu rhaglenni addysg a chyfathrebu newydd i godi ymwybyddiaeth o realiti troseddau difrifol a chyfundrefnol, y niwed y maent yn ei achosi a'r canlyniadau i droseddwyr a'u teuluoedd. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i bobl sydd wedi eu collfarnu am droseddau difrifol a chyfundrefnol a'n llwyddiant wrth atafaelu eu hasedau.

1.23 Byddwn yn defnyddio ein rhaglenni presennol (yn benodol y rhaglenni ar gyfer Teuluoedd Cythryblus a Dod â Thrais Gangiau a Phobl Ifanc i Ben) i atal troseddau difrifol a chyfundrefnol.

1.24 Rydym am weld mwy o ddefnydd gan yr NCA ac eraill o Orchmynion Atal Troseddau Difrifol a Gorchmynion Cyfyngu ar Deithio a rhybuddion 'atal ac ymwrthod' i atal pobl sydd yn ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn well.

1.25 Bydd gennym raglen rheoli troseddwyr effeithiol i olrhain troseddwyr cyfundrefnol i'r carchar a thu hwnt i hynny, gan sicrhau bod y bygythiad y maent yn ei greu yn cael ei reoli yn effeithiol.



1.26 Bydd llwyddiant wrth ATAL yn golygu:

- bydd llai o bobl yn ymwneud â gweithgareddau troseddol difrifol a chyfundrefnol;
- rydym yn lleihau ail-droseddu gan bobl sydd wedi eu collfarnu am droseddau difrifol a chyfundrefnol.

## DIOGELU

1.27 Dengys tystiolaeth bod gwella diogelu ffisegol rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol yn gallu atal a lleihau ei effaith yn sylweddol.

1.28 Mae ffiniau diogel yn hanfodol i waith ar droseddau cyfundrefnol. Rydym wedi ad-drefnu cyfrifoldebau ar y ffiniau, gyda Llu'r Ffiniau newydd a Rheolaeth Plismona Ffiniau'r NCA. Mae rhaglenni cynyddu gallu mawr ar y gweill.

1.29 Gwelwyd llwyddiant wrth dorri i lawr ar dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus ond mae angen i ni wneud mwy. Rydym am weld rhagor o gydweithio rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau lleol i gyfyngu ar y risg y gall troseddau difrifol a chyfundrefnol fanteisio ar gaffael mewn awdurdodau lleol.

1.30 Bydd cyfyngu ar dwyll ac ymosodiadau seiber yn erbyn y sector preifat yn gofyn



am gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a phreifat. Bydd y Gwasanaeth Gwirio Gwrth Dwyll yn Swyddfa'r Cabinet yn dwyn at ei gilydd ddata twyll hysbys o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i alluogi gwell diogelu rhag twyllwyr hysbys. Bydd yr NCA yn rhannu gwybodaeth gyda'r sector preifat am fygythiadau sy'n datblygu. Rydym yn gwneud rhagor o newidiadau i weithdrefnau ar gyfer rhoi adroddiadau ar dwyll i'r gwasanaeth Gweithredu Twyll. Rydym eisoes wedi cyflwyno Partneriaeth Rhannu Gwybodaeth Diogelwch Seiber (CISP) i alluogi rhannu ar wybodaeth gyhoeddus/breifat am fygythiadau seiber.

1.31 Bydd yr NCA yn parhau rhaglen addysg fawr i ddiogelu

dioddefwyr posibl cam-fanteisio ar blant. Rydym yn awr yn gweithio ar gynlluniau newydd i leihau argaeledd delweddau anghyfreithlon o gam-drin plant sy'n cylchredeg ar-lein.

1.32 Mae llwgrwobrwyo a llygredd yn offer a ddefnyddir gan droseddwyr difrifol a chyfundrefnol. Rydym yn bwriadu cyflwyno systemau newydd ar gyfer rhoi adroddiadau ar lygredd a bydd yr NCA yn arwain a chydlynu gwaith i ymchwilio i lygredd yn y Deyrnas Unedig. Bydd y Swyddfa Gartref yn awr yn cydlynu polisi domestig yn y maes hwn.

1.33 Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol hefyd yn dibynnu ar ddwyn hunaniaeth a defnyddio hunaniaethau ffug. Mae angen i ni wneud mwy i ddiogelu hunaniaethau a rhannu data am hunaniaethau ffug yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

1.34 Bydd llwyddiant DIOGELU yn golygu:

- ein bod yn lleihau'r graddau yr ydym yn agored i ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol, ar draws y llywodraeth, y sector preifat ac ymhlith y cyhoedd.

